Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Cyfarfod o'r Bwrdd: 12 Tachwedd 2021**

---

**EITEM AR YR AGENDA: [3]**

---

| | |
|---|---|
| **Teitl y papur:** | **Diweddariad ar y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol** |
| **Diben y papur:** | Mae'r Ysgrifennydd Parhaol wedi gofyn am ddiweddariad ar y cynnydd sydd wedi'i wneud o ran gwaith ar gydraddoldeb hiliol. |
| **Yr hyn y mae angen i'r Bwrdd ei wneud:** | Gofynnir i'r Bwrdd ystyried maint y newid sydd ei angen er mwyn ymgorffori dull gweithredu gwrth-hiliol yn Llywodraeth Cymru a rhoi arweiniad ar ba feysydd y dylid canolbwyntio ymdrechion er mwyn gwneud cynnydd. |
| **Y swyddog sy'n cyflwyno'r papur:** | Claire Bennett |
| **Papur a baratowyd / a gliriwyd gan:** | Tracey Burke |
| **Ymgysylltu â'r Undebau Llafur/Safbwynt yr Undebau Llafur** | Heb lywio'r papur hwn yn benodol |
| **Dyddiad cyflwyno i'r Ysgrifenyddiaeth:** | 5 Tachwedd 2021 |

## 1. Cefndir

1.1 Cyhoeddwyd y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol er mwyn ymgynghori arno ym mis Mawrth eleni. Datblygwyd yr ymgynghoriad gan ddefnyddio model cyd-awduro gyda phobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol yng Nghymru ac roedd yn nodi gweledigaeth i Gymru sy'n

wrth-hiliol. Mae'r Cynllun Gweithredu yn eang ei gwmpas ac mae'n cynnwys camau gweithredu arfaethedig mewn amrywiaeth eang o feysydd polisi. Pennwyd cwmpas y cynllun ar sail adolygiad o dystiolaeth a gynhaliwyd gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru mewn partneriaeth â grŵp ehangach o academyddion Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol a thrwy weithgarwch ymgysylltu â'r gymuned a gynhaliwyd gan grwpiau cymunedol a sefydliadau eraill er mwyn cyflwyno profiad bywyd pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol sy'n byw yng Nghymru.

1.2 Cafodd yr ymgynghoriad 320 o ymatebion gan amrywiaeth eang o sefydliadau, unigolion a grwpiau eraill a'r ail gyfnod o weithgarwch ymgysylltu â'r gymuned, a arweiniwyd unwaith eto gan grwpiau cymunedol. Mae'r gwaith o ddadansoddi'r ymgynghoriad yn tynnu at ei derfyn ac mae'n cael ei wneud gan Race Equality First.

1.3 Ar y cyfan, mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn cefnogi'r Cynllun Gweithredu a'i uchelgais i greu Cymru wrth-hiliol ond maent yn cynnwys llawer o awgrymiadau o ran sut y gellid gwneud y Cynllun Gweithredu yn gliriach a sicrhau bod y camau gweithredu yn cael mwy o effaith. Yn fwy cyffredinol, mae'r ymatebion yn rhoi llawer o fanylion am brofiadau pobl o hiliaeth a'i heffaith ar bobl a chymunedau yn ogystal â llawer o gynigion penodol o ran beth sydd angen ei newid ac atebion ymarferol i wneud cynnydd.

1.4 Fodd bynnag, er eu bod yn cefnogi uchelgais y Cynllun Gweithredu, mae llawer o bobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn dal i fod yn amheus iawn ynghylch pa mor debygol ydyw y bydd eu profiad bywyd yn newid mewn ffordd ystyrlon. At hynny, mae'r ffordd y datblygwyd y cynllun ei hun a rhai o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn awgrymu bod diffyg dealltwriaeth o'r hyn y mae gwrth-hiliaeth yn ei olygu'n ymarferol yn Llywodraeth Cymru ac mewn cyrff cyhoeddus yng Nghymru ac amharodrwydd i dderbyn y newidiadau mewn ymddygiadau, diwylliant ac arferion y mae cydnabod hiliaeth strwythurol a systemig a mynd i'r afael â hi yn gofyn amdanynt.

## 2. Materion i'w hystyried

2.1 Mae gwaith i ddiwygio'r Cynllun Gweithredu, atgyfnerthu'r camau gweithredu a chytuno ar y strwythurau llywodraethu a fydd yn helpu i roi'r Cynllun ar waith ac yn ein herio wrth wneud hynny, yn mynd rhagddo. Fodd bynnag, mae a wnelo hyn â mwy na chymryd camau penodol a nodir yn y Cynllun Gweithredu. Mae angen inni barhau i weithio i feithrin ein gallu a chynyddu ein hadnoddau er mwyn hyrwyddo arferion gwrth-hiliol, newid ymddygiadau ac ailystyried ein systemau a'n prosesau presennol mewn ffordd lawer mwy sylfaenol a sut y gellir eu hail-lunio er mwyn sicrhau canlyniadau gwrth-hiliol.

2.2 O'n profiad ni, mae amharodrwydd i dderbyn newid yn amlygu ei hun mewn sawl ffordd wahanol, er enghraifft:

- Gwrthwynebiadau 'beth am…?' – lle mae gwneud cynnydd o ran gwrth-hiliaeth yn cael ei gyflwyno fel rhywbeth sydd ar draul cynnydd ar gyfer nodwedd warchodedig arall
- 'Mae angen mwy o ddata / tystiolaeth arnom…' – lle mae angen dilysu'r achos dros newid ymhellach cyn y gellir ystyried cymryd camau neu lle na ellir cymhwyso atebion posibl heb lawer mwy o dystiolaeth – a lle mae'r canlyniadau negyddol ar gyfer pobl sy'n aros am newid yn cael eu goddef
- 'Mae / maent yn gwneud gwaith da…' – lle mae gwasanaethau neu sefydliadau yn cyflawni, mae amharodrwydd i fynd i'r afael â phryderon sy'n cael eu mynegi ynghylch a ydynt yn cyflawni i bawb
- 'Nid oes gennym yr adnoddau na'r amser neu mae gennym flaenoriaethau eraill i'w cyflawni…' – lle rydym yn dweud, i bob pwrpas, fod cael sicrwydd ynghylch a yw'r polisïau a'r gwasanaethau a gynigir gennym yr un mor hygyrch a phriodol i wahanol grwpiau o ddinasyddion ac a ydynt yn sicrhau'r un canlyniadau iddynt, yn ddewisol yn hytrach na bod yn fan cychwyn sylfaenol

2.3 Cwestiynau allweddol i'r Bwrdd eu hystyried yw:

- Beth mae mabwysiadu dull gweithredu gwrth-hiliol yn ei olygu i'r Bwrdd, ei gyfansoddiad a'i ffyrdd o weithio?
- Pa rôl y dylai'r Bwrdd ei chwarae o ran rhoi sicrwydd ynghylch y ffordd rydym yn ymgorffori arferion gwrth-hiliol ac yn ailystyried ein prosesau i sicrhau canlyniadau tecach? Pa dystiolaeth y byddai'r Bwrdd yn hoffi ei gweld yn cael ei chofnodi er mwyn iddi lywio ei ystyriaethau?
- O ystyried y sefyllfa heriol bresennol o ran adnoddau a'r nifer bach o unigolion a gaiff eu recriwtio o'r tu allan, ar beth y dylem ganolbwyntio wrth ddatblygu adnoddau a gallu o ran arferion gwrth-hiliol?
- Sut y gellir herio amharodrwydd i dderbyn newid a newid ymddygiadau?

## 3. Goblygiadau o ran adnoddau

*Goblygiadau Ariannol*

3.1 Mae goblygiadau ariannol i roi'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol ar waith. Mae'r rhain yn golygu cost ychwanegol sy'n cyfateb i tua £8m ac maent wedi'u bwydo i mewn i broses gyllidebol Llywodraeth Cymru. Nid yw'r canlyniad wedi'i nodi eto. At hynny, mae cais penodol wedi'i wneud am gyllid i dalu costau rhedeg is-adrannol sy'n cyfateb i ychydig o dan £1.5m er mwyn i staff allu cyflawni'r Cynllun Gweithredu mewn gwahanol dimau ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru. Mae cais yn dal i gael ei ystyried. Byddai rhywfaint o raddio yn bosibl ond ni fydd yn bosibl cyflawni uchelgais y Cynllun Gweithredu heb fuddsoddiad ychwanegol mewn staff ac adnoddau ar gyfer rhaglenni.

*Goblygiadau i staff*

3.2 Dylai ymgorffori dull gweithredu gwrth-hiliol yn Llywodraeth Cymru gael effaith gadarnhaol ar brofiad staff Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn

Llywodraeth Cymru.  Bydd mynd i'r afael â systemau a phrosesau er mwyn sicrhau eu bod yn fwy tryloyw ac yn decach ac yn sicrhau canlyniadau cyfartal o fudd i grwpiau eraill.

3.3 Nid yw Undebau Llafur Llywodraeth Cymru wedi'u cynnwys yn uniongyrchol yn y gwaith o ddatblygu'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol ond mae TUC Cymru yn aelod o'r Grŵp Llywio. Mae Undebau Llafur Llywodraeth Cymru yn cymryd rhan uniongyrchol yn y gwaith o ddatblygu camau gweithredu yn y cynllun sy'n ymwneud â'n prosesau Adnoddau Dynol ac adran 'arweinyddiaeth' ehangach y Cynllun a'u rhoi ar waith.

## 4. Risgiau

4.1 Mae'r risgiau allweddol sy'n gysylltiedig â rhoi'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol ar waith ac ymgorffori dull gweithredu gwrth-hiliol fel a ganlyn:

- Prinder staff (â'r arbenigedd a'r hygrededd perthnasol) a diffyg adnoddau ar gyfer rhaglenni er mwyn arwain y gwaith a helpu i sicrhau newid yn Llywodraeth Cymru ac yn ehangach
- Diffyg hyder ymhlith pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol sydd wedi llunio'r cynllun ar y cyd ein bod o ddifrif ynglŷn â chyflawni ein gweledigaeth gwrth-hiliaeth a chael ein dwyn i gyfrif am ein heffeithiolrwydd wrth wneud hynny
- Peidio â chynnal y proffil a'r egni sydd eu hangen i sicrhau'r newid ymddygiadol a diwylliannol sydd ei angen

## 5. Cyfathrebu

5.1 Ar yr adeg hon, nid oes unrhyw gynnig penodol i'w gyfleu i staff ond dylid datblygu cynllun clir i gynnal y sgyrsiau ynglŷn â hil a ddechreuodd y llynedd ar yr un pryd ag y cyhoeddir y Cynllun Gweithredu terfynol ym mis Mawrth 2022.

## 6. Materion Cyffredinol sy'n ymwneud â Chydymffurfiaeth

6.1 Nid oes unrhyw faterion penodol sy'n ymwneud â chydymffurfiaeth i'w nodi ond bydd ymgorffori dull gweithredu gwrth-hiliol yn gyfraniad pwysig at gydymffurfiaeth Llywodraeth Cymru â dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a gofynion y Ddeddf Cydraddoldeb a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

## Argymhelliad (argymhellion)

7.1 Gofynnir i'r Bwrdd ystyried maint y newid sydd ei angen er mwyn ymgorffori dull gweithredu gwrth-hiliol yn Llywodraeth Cymru a rhoi arweiniad o ran ar ba feysydd y dylid canolbwyntio ymdrechion er mwyn gwneud cynnydd.

**Cyhoeddi**

Dylid cyhoeddi'r papur hwn (gan gynnwys yr Atodiadau) yn llawn gan nad oes yr un o'r eithriadau yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth yn gymwys.